
Prifysgol Abertawe
Swansea University



# EIN STRATEGAETH CYNALIADWYEDD AC ARGYFWNG HINSAWDD

2021 - 2025

# CYNNWYS

02 RHAGARWEINIAD

03 STRWYTHUR EIN STRATEGAETH CYNALIADWYEDD AC ARGYWNG HINSAWDD

06 THEMA 1: YR ARGYFWNG HINSAWDD

12 THEMA 2: EIN HAMGYLCHEDD NATURIOL

16 THEMA 3: EIN HAMGYlCHEDD GWAITH

22 THEMA 4: EIN TEITHIO

## RHAGARWEINIAD

**Mae ceisio sicrhau datblygu cynaliadwy yn her gyffrous i Brifysgol Abertawe, ac yn gyfle i ni chwarae rôl arweinyddiaeth hollbwysig yn y rhanbarth, yn y DU ac yn rhyngwladol.**

- Mae'r Brifysgol yn ymgymryd â gweithgarwch ymchwil arloesol sydd â goblygiadau dwfn ar gyfer deall a gwarchod yr amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys prosiectau carbon isel a fydd yn chwarae rhan allweddol wrth sbarduno'r DU i fabwysiadu systemau ynni di-garbon; cyfreithiau amgylcheddol ac ynni; newid yn yr hinsawdd a rhewlifeg; bioamrywiaeth; cadwraeth, a dyframaeth cynaliadwy.
- Yn ogystal ag adeiladu'r gallu hwn i fynd i'r afael â materion datblygu cynaliadwy yn y dyfodol, mae prifysgolion yn gallu cyflawni effaith bositif net drwy eu gweithrediadau busnes. Yn ystod y degawd diwethaf, mae Prifysgol Abertawe wedi cael ei chydnabod yn fwyfwy fel arweinydd ym maes cynaliadwyedd sefydliadol sy'n cyfrannu at ddyfodol mwy disglair a mwy cynaliadwy.
- Mae Abertawe wedi cyflawni lle ymysg y 10 gorau o 154 o sefydliadau addysg uwch yn y DU yn y tri thabl Cynghrair diwethaf o brifysgolion People and Planet a gyhoeddir gan The Guardian ("y Gynghrair Werdd"). Rydym wedi gwella ein safle yn y tabl cynghrair yn gyflym o safle isel yn 2011, sef 122. Mae'r gwelliant hwn o ganlyniad i'n dwy strategaeth cynaliadwyedd flaenorol, ein cynlluniau gweithredu, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a'r Cynllun Rheoli Carbon, ein System Rheoli Amgylcheddol a'r rhaglen waith gysylltiedig sydd ar waith ar draws y sefydliad.
- Mae cofrestr y Brifysgol o ddeddfwriaeth ym maes cynaliadwyedd yn cynnwys dros 70 darn o ddeddfwriaeth a gofynion cyfreithiol eraill sy'n gymwys i amrywiaeth o feysydd megis gwastraff, carbon, niwsans, llygredd a bioamrywiaeth. Yn ogystal â'r "Gynghrair Werdd" a rheoli ein risgiau cyfreithiol sylweddol, mae nifer o ffactorau eraill yn ysgogi'r Brifysgol i wella ein perfformiad cynaliadwyedd yn barhaus, gan gynnwys:

- angen dybryd i ymateb i'r argyfwng hinsawdd
- gofyniad CCAUC i ni roi Cynllun Rheoli Carbon a System Rheoli Amgylcheddol cadarn ar waith;
- cefnogi'r angen sydd ynghlwm â llawer o grantiau ac incwm ymchwil i gyflawni achrediad ISO 14001 ac i roi polisïau a gweithdrefnau amgylcheddol ar waith;
- ein hymrwymiad yn 2019 i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- sicrhau effeithlonrwydd o ran adnoddau a chyllid a diogelwch;
- cefnogi profiad myfyrwyr a staff a denu a chadw myfyrwyr;
- perfformiad cyfoedion a mantais; a,
- disgwyliadau cynyddol myfyrwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Ein nod dros gyfnod y Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd hon yw sicrhau y bydd Prifysgol Abertawe'n parhau i gael ei hystyried yn arweinydd ym meysydd cynaliadwyedd a gweithredu ar newid yn yr hinsawdd, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Byddwn yn parhau i weu llinynnau **ein stori gynaliadwyedd** ynghyd - yn ein gweithrediadau, ein gweithgareddau addysg, ymchwil ac allgymorth - gan ddangos arloesi, dylanwad a gweithredu pellgyrhaeddol a systematig.




## STRWYTHUR EIN **STRATEGAETH CYNALIADWYEDD AC ARGYFWNG HINSAWDD**

Hon yw'r drydedd Strategaeth Cynaliadwyedd a'r un fwyaf uchelgeisiol a luniwyd gan Brifysgol Abertawe, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 2021 i 2025. Mae'r strategaeth yn rhannu'r agenda cynaliadwyedd amlochrog yn bedair thema glir: Yr Argyfwng Hinsawdd, Ein Hamgylchedd Naturiol, Ein Hamgylchedd Gwaith a'n Teithio. Mae'r thema gyntaf – yr Argyfwng Hinsawdd - wedi'i chynnwys hefyd fel thema drawsbynciol â chamau gweithredu lliniaru ac addasu ym mhob un o'r tair thema arall.

Mae'r Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd hon yn amlinellu, mewn ffyrdd clir ac amlwg, sut byddwn yn rhoi ein **Polisi Cynaliadwyedd 2020** ar waith ac mae'n ymdrechu i fod yn hawdd ei defnyddio. Mae rhagor o fanylion (risgiau a chyfleoedd, amcanion a thargedau SMART, cynlluniau gweithredu a threfniadau monitro) ein rhaglen cynaliadwyedd ac argyfwng hinsawdd wedi'u cynnwys yn ein System Rheoli Amgylcheddol sydd ag achrediad ISO 14001 a statws Platinwm Eco-gampws. Mae ein System Rheoli Amgylcheddol yn rhan gynhenid o weithgarwch y sefydliad cyfan ac mae Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd lleol ar waith yn y Cyfadrannau a'r Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Drwy'r system bresennol hon o gynlluniau lleol, pwyllgorau a rhwydweithiau cysylltiedig y gwireddir llawer o'r ymrwymiadau yn y strategaeth hon.

Mae'r Strategaeth hon yn ategu ac yn cydweddu â Gweledigaeth Strategol a Phwrpas y Brifysgol sy'n cynnwys ein hymrwymiad i "*gysoni ein gwaith â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy...bod yn brifysgol ddi-garbon erbyn 2040, a ...chefnogi ein cymuned leol drwy brosiectau cynaliadwyedd a mentrau mentergarwch cymdeithasol*".

# THEMÂU CYNALIADWYEDD




## GWEITHGAREDDAU TRAWSBYNCIOL

A. Llywodraethu, Rheoli, Penderfynu

B. Dysgu, Gallu, Sgiliau

C. Cyfathrebu, Ymgysylltu, Cynnwys

## CYFRANIAD AT NODAU ALLWEDDOL

i) Yr Argyfwng Hinsawdd (Thema 1)

ii) Lles ac Iechyd Dynol

iii) Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

iv) Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

## BYDD Y STRATEGAETH HON YN CYFLWYNO'R CANLYNOL O DAN BOB UN O'N **PEDAIR THEMA ALLWEDDOL**:

1. Detholiad o'n **LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL** dros gyfnod y Strategaeth Cynaliadwyedd flaenorol (2016-2020)
2. Ein **HYMRWYMIADAU ALLWEDDOL** ar gyfer cyfnod y strategaeth hon (2021-2025)
3. Sut mae **GWEITHGAREDDAU TRAWSBYNCIOL** yn ategu'r thema:

**a) Llywodraethu, Rheoli, Penderfynu:**
Mae ein strwythur llywodraethu (a ddisgrifir yn llawn yn ein System Rheoli Amgylcheddol 14001) yn cynnwys cynrychiolaeth ar draws y Brifysgol ac mae'n ymdrechu i gysylltu myfyrwyr, swyddogaethau academaidd a gweinyddol. Mae'r holl faterion strategol, polisi ac adolygiad rheoli sy'n berthnasol i'r strategaeth hon yn cael eu goruchwylio gan y Pwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol sy'n llywio Tîm Uwch-Arweinyddiaeth y Brifysgol.

**b) Dysgu, Gallu, Sgiliau:**
Y prif weithgareddau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol a gynhelir gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglen waith a amlinellir yn y ddogfen hon.

**c) Cyfathrebu, Ymgysylltu a Chynnwys:**
I sicrhau ymagwedd wedi'i thargedu at gynaliadwyedd a'r argyfwng hinsawdd, caiff cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ei lunio'n flynyddol sy'n pennu targedau ar gyfer cyfathrebu mewn perthynas â'n hapiau, ein prosiectau a'n hymgyrchoedd ymhlith staff a myfyrwyr. Mae gan y Brifysgol rwydwaith o Gydlynwyr Amgylcheddol hefyd sy'n ffordd hollbwysig o ledaenu newyddion a chynnydd ym maes cynaliadwyedd, gan ysgogi datblygiad parhaus y System Rheoli Amgylcheddol a mentrau eraill.

4. Sut mae'r thema hon yn ategu'r **NODAU ALLWEDDOL** canlynol:


**i. Yr Argyfwng Hinsawdd (Thema1):**
Ymunodd Prifysgol Abertawe â sefydliadau addysg uwch eraill ledled y byd wrth lofnodi Llythyr Prifysgolion a Cholegau'r Byd am yr Hinsawdd yn 2019, a gydnabu'r angen am newid cymdeithasol sylweddol i fynd i'r afael â bygythiad cynyddol newid yn yr hinsawdd. Rydym wedi ymrwymo i ddod yn brifysgol ddi-garbon (cwmpas 1 a 2) erbyn 2040, i beidio â buddsoddi'n uniongyrchol mewn cwmnïau tanwydd ffosil, ac i weithio tuag at sefyllfa lle mae Prifysgol Abertawe'n cael effaith bositif net ar yr hinsawdd. Mae hyn yn ymrwymiad enfawr, a bydd yn gofyn i bawb yn y brifysgol gydweithio er mwyn cyflawni ein nod. O 2021 ymlaen, mae'r ymrwymiadau lefel uchaf o ran carbon a'r hinsawdd (lliniaru effeithiau'r hinsawdd ac addasu i'r hinsawdd) wedi'u cynnwys yn y strategaeth hon, a chânt eu hategu gan Gynllun Pontio 'Llwybr i Sero'. Yna caiff amlinelliad manwl o gamau gweithredu, prosiectau a chostau ei gynnwys wrth lunio'r cynlluniau hinsawdd / carbon a fydd yn rhan o System Rheoli Amgylcheddol y Brifysgol (ISO 14001). Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i lunio adroddiadau cyhoeddus yn flynyddol ar ein cynnydd tuag at fod yn ddi-garbon (cwmpas 1 a 2) a sero-net (cwmpas 3).

**ii. Lles ac Iechyd Dynol:**
Roedd y Strategaeth Cynaliadwyedd flaenorol (2016-2020) yn cynnwys lles ymhlith ein hwyth thema allweddol, a adlewyrchodd ein rôl fel cydlynydd y Safon Iechyd Corfforaethol a'r rhyngwyneb agos rhwng cynaliadwyedd a lles ac iechyd. Ers hynny, rydym wedi cynorthwyo wrth greu Strategaeth Lles ar wahân i'r Brifysgol, ynghyd â gweithgorau, cynlluniau gweithredu, amcanion a thargedau cysylltiedig. Mae'r Strategaeth Lles bellach yn cynnwys amcan i gydnabod manteision cynaliadwyedd a lles i'r Brifysgol a'i chymuned. Felly, i sicrhau bod y strategaeth hon yn parhau i adlewyrchu ein hymrwymiadau i les, mae Lles ac Iechyd Dynol bellach wedi'i gynnwys fel nod trawsbynciol ym mhob un o'r pedair thema cynaliadwyedd allweddol.

**iii. Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):**
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu sut dylai cyrff cyhoeddus wneud cynnydd, ei fonitro ac adrodd am sut mae eu gweithredoedd yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Er nad yw'r Brifysgol yn 'gorff cyhoeddus' at ddibenion y Ddeddf, mae ei rheoleiddiwr - CCAUC - yn gorff cyhoeddus a gwahoddwyd prifysgolion i gyfrannu at Gynlluniau Lles er mwyn helpu i gyflawni amcanion lleol ynghylch datblygu cynaliadwy. Mae Gweledigaeth a Phwrpas y Brifysgol yn rhannu ymrwymiadau'r Ddeddf i feddwl am effaith hirdymor penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau, ac i fynd i'r afael â materion gan gynnwys tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. I'r perwyl hwn, mae'r Ddeddf yn cydweddu'n agos â nod y Brifysgol o ddarparu dyfodol mwy cynaliadwy i'n myfyrwyr presennol a rhai'r dyfodol, ein staff a'n cymunedau ac mae wedi'i chynnwys yn ein System Rheoli Amgylcheddol fel deddfwriaeth allweddol ym maes datblygu cynaliadwy. Rydym wedi mapio ein meysydd strategol i 46 Dangosydd Cenedlaethol Cymru, yn gyson â'r Ddeddf.

**iv. Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig:**
Mae ein prifysgol wedi ymrwymo i gysoni ein gwaith ag 17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel y 'Nodau Byd-eang'. Mae'r nodau'n darparu glasbrint ar gyfer dyfodol gwell a mwy cynaliadwy i bawb, â'r nod o ddileu tlodi, ymladd anghydraddoldeb ac anghyfiawnder a gwarchod ein planed. Rydym wedi mapio pob un o themâu'r strategaeth hon yn erbyn y Nodau Datblygu Cynaliadwy ac, yn ein System Rheoli Amgylcheddol (ISO 14001), rydym yn mapio'r cyfraniad a wneir gan y Brifysgol drwy ei hystadau, ei gweithrediadau, ei gweithgareddau busnes, addysgu, ymchwil ac allgymorth. Rydym yn adrodd ar ein cynnydd o ran y Nodau Datblygu Cynaliadwy fel rhan o'n hymrwymiad fel llofnodwr Cytundeb y Nodau Datblygu Cynaliadwy, sydd â'r nod o hyrwyddo rôl allweddol addysg wrth gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r buddion mae'n eu darparu i lywodraethau, busnes a chymdeithas ehangach. Amlinellir yr 17 nod isod:





# THEMA 1:

# YR ARGYFWNG HINSAWDD

## EIN LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL (2016-2020)

### STRATEGOL

Gwnaethom ddatgan Argyfwng Hinsawdd yn 2019 a llofnodi **Llythyr Prifysgolion a Cholegau'r Byd am yr Hinsawdd**

Mae ymateb i'r argyfwng hinsawdd - yn ein gweithrediadau, ein gweithgarwch addysgu, ymchwil a'n Cenhadaeth Ddinesig - bellach yn un o ymrwymiadau craidd **Gweledigaeth Strategol a Phwrpas y Brifysgol**

**Tynnu** ein gwaddolion o bob cronfa sy'n buddsoddi mewn tanwyddau ffosil a gweithgareddau cysylltiedig yn 2019

### RHEOLI CARBON

Trafodaethau (â rheoleiddwyr) i fabwysiadu **gwaelodlin allyriadau ar gyfer 2015/16** o'i chymharu â blwyddyn gwaelodlin y rhan fwyaf o sefydliadau, sef 2005 neu 2010, - sy'n golygu bod ein targedau ni'n fwy uchelgeisiol

Mae **Cynllun Rheoli Carbon cyhoeddus** ar gyfer allyriadau cwmpas 1, 2 a 3 wedi cael ei gyhoeddi ers 2016

Cyflawnwyd sgôr o 100% ar gyfer Rheoli Carbon yn y Gynghrair o brifysgolion a gyhoeddwyd gan The Guardian yn 2019, **People and Planet**

Datblygwyd y cysyniad a'r ymagwedd "**Llwybr i Sero**" ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliad ynghylch yr Argyfwng Hinsawdd

Datblygwyd **gweithdrefnau corfforaethol** newydd yn ein System Rheoli Amgylcheddol mewn perthynas ag effeithiau allweddol ar yr hinsawdd, gan gynnwys nwyon wedi'u fflworeiddio, gwastraff, teithio busnes ac argraffu

Cyflawnwyd gostyngiad yng nghyfanswm allyriadau carbon y Brifysgol sy'n **gyfwerth â 9,276 o dunellau metrig o garbon deuocsid ($CO_2$e)** ers sefydlu'r gwaelodlin (cwmpas 1, 2 a 3), yng nghyd-destun Prifysgol sy'n tyfu (cyfanswm staff a myfyrwyr CALl a lle addysgu)

Cyflawnwyd gostyngiad yn allyriadau carbon cwmpas 1 a 2 o adeiladau, cyfleustodau a'r cerbydlu sy'n gyfwerth â **2,432 o dunellau metrig o $CO_2$e** ers sefydlu'r gwaelodlin yng nghyd-destun cynnydd mewn lle addysgu

### ISADEILEDD

**Gostyngiad o 16%** o ran $CO_2$e o ddefnydd trydan ers 2015/16, ar y trywydd iawn i fod yn ddi-garbon erbyn 2035

Mae pob un o'r tri adeilad newydd a agorwyd yn 18/19 wedi cyflawni achrediad BREEAM Ardderchog – **Y Coleg, y Ffowndri Gyfrifiadol ac Adeilad Gogleddol Peirianneg**

Cynyddodd **allbwn trydan o CHP (gwres a phŵer cyfunedig)** o 1.3MWh i 1.7MWh a chynyddodd allbwn gwres o 0.5MW i 1.5MW

Buddsoddwyd **£1M** mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni bach a chanolig, gan gynnwys goleuadau LED, rheolyddion gwres a mesuryddion cyfleustodau

Mae gan bob adeilad unigol is-fesuryddion ar gyfer cofnodi defnydd cyfleustodau a datblygwyd **dangosfyrddau defnydd** yn y System Rheoli Adeiladau

Gwellodd y Sgôr Perfformiad Ynni Adeiladau (Sgôr DEC) o **85 yn 2016 i 78 yn 2020**

Cynyddodd gallu'r paneli solar ffotofoltäig a osodwyd o 50KW i 490KW gan **gynhyrchu 2,670,052 kWh o ynni adnewyddadwy ers 2015/16**, gan osgoi allyrru 376 o dunelli metrig o $CO_2$e ac arbed £330,000 drwy beidio â mewnforio trydan o'r grid

### YMGYSYLLTU

Y brifysgol gyntaf yng Nghymru i gynnwys myfyrwyr fel partneriaid gweithredol drwy **Brosiect Ynni'r Myfyrwyr (TSEP)** yn ein neuaddau ar Gampws Singleton, a heriodd fyfyrwyr preswyl i leihau ynni, allyriadau carbon a chostau gan eu haddysgu ar yr un pryd. Cofnododd TSEP ostyngiad blynyddol 4% o ran defnydd ynni, sy'n gyfwerth â **60,000 kWh ac arbedion ariannol gwerth £6,000**

Yr **Ymgyrch Diffodd** a gynhelir bob blwyddyn sy'n arbed ynni cyfwerth â 7.5%. Ers 2015/16, mae dros 200 o staff a myfyrwyr wedi gwirfoddoli gyda ni mewn helfa gwastraff ynni, gan ddychwelyd i adeiladau ar ôl iddi dywyllu i wirio a herio ymdrechion arbed ynni staff a myfyrwyr

Dulliau gweledol o reoli ynni drwy **Ddangosfyrddau Ynni** i roi gwybodaeth i staff am ddefnydd cyfleustodau mewn adeiladau

Drwy'r ap ymgysylltu pwrpasol ac arobryn **SWell**, rydym wedi ymgysylltu â thros 50% o'n staff ac wedi annog newid mewn ymddygiad er mwyn lleihau ein hôl troed carbon unigol a chyfunol, sydd wedi arwain at dros 400,000 o weithredoedd cadarnhaol, gan gynnwys: defnydd effeithlon o ddyfeisiau sy'n defnyddio llawer o ynni, rhoi gwybod am ddiffygion mewn cyfarpar a gollyngiadau dŵr, dewis dulliau teithio cynaliadwy a llesol, osgoi gwastraff a phrynu llai

Drwy'r ymgyrch flynyddol **Wythnos Ynni**, rydym wedi cydweithio ag Undeb y Myfyrwyr i gynyddu

ymwybyddiaeth o ran ffyrdd ymarferol o arbed arian a lleihau olion troed carbon, drwy hwyluso gweithdai, gemau a stondinau dros dro dan arweiniad myfyrwyr ar y campws

Drwy fentrau megis y **Wobr Cynaliadwyedd a gydnabyddir gan HEAR**, lleoliadau gwaith Wythnos o Waith, Go Wales a SPIN, rydym wedi galluogi dros 900 o fyfyrwyr i feithrin sgiliau cyflogadwyedd. Mae hyn wedi cefnogi ymdrechion allgyrsiol i leihau effeithiau ar yr hinsawdd drwy amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys plannu coed, arbed dŵr, ailgylchu, osgoi plastig untro, arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy

## EIN HYMRWYMIADAU ALLWEDDOL (2021-2025

### RHEOLI CARBON

CE 1. **Cwmpas 1 a 2:** Bod yn ddi-garbon o ran allyriadau uniongyrchol (cwmpas 1 a 2) erbyn 2035, gyda gostyngiad gwerth o leiaf 70% erbyn 2030 (o 2015/16)

CE 2. Rhoi'r rhaglen waith ymgysylltu lleol **Llwybr i Sero** ar waith er mwyn cyflawni gostyngiad blynyddol o 5% (ar gyfartaledd) mewn allyriadau cwmpas 1 a chwmpas 2, gan gynnwys dynodi targedau a nodi'n glir sut gall Cyfadrannau, Unedau Gwasanaeth Proffesiynol a rhanddeiliaid gyfrannu at leihau allyriadau.

CE 3. **Cwmpas 3**: Cyflawni gostyngiad blynyddol o 2.5% (ar gyfartaledd) mewn allyriadau cwmpas 3, 50% erbyn 2035 (35% erbyn 2030)

CE 4. Datblygu rhaglen waith i ddiffinio a chyflawni **is-dargedau a rhaglenni monitro ar gyfer cwmpas 3** gan gynnwys: teithio busnes, cymudo staff a myfyrwyr, gwastraff, dŵr, bwyd a diod a chaffael

CE 5. Newid **arferion diwylliant gwaith** i gynyddu rhannu swyddfeydd, rhannu desgiau, gweithio gartref ac o bell, lle bynnag y bo'n ymarferol ac yn gyson ag anghenion busnes, a mabwysiadu platfformau digidol i optimeiddio defnydd o'r lle sydd ar gael.

### ISADEILEDD

CE 6. Cyflawni'r gallu i gynhyrchu 1 MW o drydan drwy **ynni gwynt adnewyddadwy** ar Gampws y Bae, yn amodol ar ganiatâd cynllunio, cyllid ac ystyriaethau eraill

CE 7. Cyflawni'r gallu i gynhyrchu 300KW ychwanegol o drydan o **ynni adnewyddadwy o baneli solar ffotofoltäig ar Gampws y Bae**

CE 8. Cyflawni'r gallu i gynhyrchu 1MW ychwanegol o drydan o **ynni adnewyddadwy o baneli solar ffotofoltäig** ar Gampws Singleton

CE 9. Cyflawni'r gallu i gynhyrchu 2MW o **bŵer a gwres** carbon isel ar Gampws Singleton

CE 10. Gweithio gyda **Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru** i ddatblygu ein prosesau cynllunio isadeiledd er mwyn lleihau allyriadau carbon

CE 11. Mabwysiadu gofyniad i gyflawni o leiaf safon **BREEAM o ran Adnewyddu Adeiladu a'u Paratoi i'w Meddiannu (RFO)** neu **sgôr RICS SKA** mewn cysylltiad â phrosiectau'r brifysgol

### ADDASU

CE 12. Caiff cynllun ei ddatblygu i'n galluogi i wrthbwyso ein hallyriadau **cwmpas 3 na ellir eu hosgoi**, gan ystyried safonau dilysu posib (gan gynnwys Safon Aur, ISO 14064 a GHGP ymhlith eraill)

## GWEITHGAREDDAU TRAWSBYNCIOL - YMRWYMIADAU

### LLYWODRAETHU, RHEOLI, PENDERFYNU

CE 13. Byddwn yn datblygu **Asesiad Effaith ar Gynaliadwyedd a'r Argyfwng Hinsawdd** sy'n syml ond yn gynhwysfawr, a fydd yn galluogi'r Brifysgol i ystyried costau gydol oes a theilwra polisïau, buddsoddiadau, ceisiadau am grant, prosiectau a mentrau newydd i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd

CE 14. Byddwn yn sefydlu **Gweithgor Newid yn yr Hinsawdd** (staff a myfyrwyr) i drafod a chynllunio i gyflwyno a chyflawni gweithrediadau carbon isel ar ein campysau

CE 15. **Datblygu proffil cyllideb a rhaglen** ar gyfer bod yn ddi-garbon o ran cwmpas 1 a chwmpas 2 o 2035 ymlaen erbyn diwedd 2021 (ein cynllun pontio manwl)

CE 16. **Archwilio ffynonellau cyllid** gyda phrifysgolion partner i alluogi cadwyn o fuddsoddiadau sy'n datgarboneiddio'r ynni rydym yn ei ddefnyddio (ymyriadau graddfa fach a mawr) a gwella'r ffordd rydym yn rheoli'r campws fel system ynni lleol glyfar ac integredig i'n galluogi i gyflawni ein targedau

CE 17. Datblygu targedau cwmpas 1, 2 a 3 ar gyfer Cyfadrannau ac Unedau Gwasanaeth Proffesiynol fel rhan o'u **Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd**, i'w hadolygu bob chwarter ac adrodd arnynt drwy adolygiad rheoli blynyddol

CE 18. Parhau i wella adroddiadau ar ddata carbon a chytuno ar **dargedau SMART** i leihau allyriadau carbon cwmpas 3 penodol gyda chontractwyr a darparwyr gwasanaeth mewn cadwyni cyflenwi perthnasol

CE 19. Byddwn yn **fanwl ac yn dryloyw** am feysydd ein gweithrediadau a'n gwaith sydd ag effaith uchel o ran carbon ac yn sicrhau bod y meysydd hyn yn gwneud cyfraniad net at gyflawni targedau carbon a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

### DYSGU, GALLU, SGILIAU

CE 20. Datblygu **pecyn cymorth llythrennedd carbon** er mwyn galluogi staff a myfyrwyr i leihau effaith eu gweithgareddau, eu hymchwil a'r mannau maent yn eu defnyddio ar y campws.

CE 21. Cefnogi a **datblygu cyfleoedd i addysgu, gwella sgiliau a hyfforddi** staff a myfyrwyr a'r gymuned ehangach ym meysydd rheoli carbon a lleihau ein hôl troed carbon unigol a chyfunol

CE 22. Archwilio cyfleoedd i ddatblygu **pecynnau hyfforddi** am yr argyfwng hinsawdd fel adnodd ar-lein

CE 23. Cynnwys ymrwymiadau a dyheadau ynghylch yr argyfwng hinsawdd a rheoli carbon yng **Ngwobr Cynaliadwyedd y Myfyrwyr**

CE 24. Datblygu cyfres o fodiwlau dysgu ar draws y brifysgol fel rhan o **raglen allgymorth am yr argyfwng hinsawdd** sy'n addas ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd bwydo lleol, colegau a grwpiau cymunedol, gyda chymorth Discovery a phartneriaid eraill.

### CYFATHREBU, YMGYSYLLTU, CYNNWYS

CE 25. Manteisio ar **addysgu ac ymchwil** i helpu i ddod o hyd i atebion ac ysbrydoli newid ymddygiad yn ein prifysgol, y gymuned ehangach a'r tu hwnt

CE 26. Parhau i fod yn aelod gweithredol o grŵp llywio **Bae Abertawe Carbon Isel**, gan weithio mewn partneriaeth i helpu i gyflawni ymateb ardal Bae Abertawe i'r argyfwng hinsawdd

CE 27. Cyflwyno rhaglen ymgysylltu â staff a myfyrwyr ar gyfer lleihau carbon a lles a fydd yn cyflawni **gostyngiad 10% mewn allyriadau carbon** a chydweddu â Strategaeth Lles y Brifysgol

CE 28. Cefnogi ymdrechion allgyrsiol cymdeithasau **Undeb y Myfyrwyr** yn y maes hwn (e.e. yr Amgylchedd a Moeseg, Cadwraeth ac Ecoleg, Coed a Phobl a'r Blaned)

CE 29. Cynnwys cyfrifoldebau a gofynion adrodd o ran yr argyfwng hinsawdd a rheoli carbon yn **nisgrifiadau swydd** rolau perthnasol ar draws y Brifysgol

CE 30. Gweithio tuag at gynnwys **sesiwn sefydlu ynghylch cynaliadwyedd a'r argyfwng hinsawdd** yn rhan o'r darpariaethau allweddol ar gyfer yr holl fyfyrwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd

THEMA 1: YR ARGYFWNG HINSAWDD

## EIN CYFRANIAD AT NODAU ERAILL

### LLES AC IECHYD DYNOL

CE 31. Uchafu'r manteision dwyochrog sy'n deillio o leihau allyriadau carbon, addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd a gwella lles dynol yn ein gwaith er mwyn cyflawni gwobr **Aur a Phlatinwm Safon Iechyd Corfforaethol** Iechyd Cyhoeddus Cymru ac er mwyn ategu Strategaeth Lles y Brifysgol

### LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

NI 4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid ($NO_2$) yn yr awyr

NI 11. Canran y busnesau sy'n weithredol ym maes arloesi

NI 12. Galluedd (mewn MW) cyfarpar ynni adnewyddadwy sy'n cael eu cyflwyno

NI 13. Crynodiad carbon a deunydd organig yn y pridd

NI 14. Ôl Troed Ecolegol Cymru

NI 15. Gwastraff y pen a gynhyrchir nad yw'n cael ei ailgylchu

NI 29. Sgôr gymedrig iechyd meddwl pobl

NI 32. Nifer yr adeiladau (cartrefi neu fusnesau) sy'n agored i risg ganolig neu uchel o ganlyniad i lifogydd o afonydd neu'r môr


NI 41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru

NI 42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i ddefnydd nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru

NI 46. Budd Cymdeithasol o Fuddsoddi o ran partneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

### NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CENHEDLOEDD UNEDIG



THEMA 1: YR ARGYFWNG HINSAWDD

THEMA 2:

# EIN HAMGYLCHEDD NATURIOL

## EIN LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL (2016-2020)

Ysgwyddo cyfrifoldeb am reoli **Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Twyni Crymlyn** ("y SoDdGA") yn sgil agor Campws y Bae. Rydym wedi llunio cynllun rheoli, wedi caffael yr offer a'r cyfarpar angenrheidiol ac wedi dechrau ein gweithgarwch rheoli, gan gynnwys camau gweithredu i gyfyngu ar rywogaethau estron goresgynnol, rhoi arolygon a phrosesau monitro bywyd gwyllt ar waith a glanhau sbwriel o'r traeth yn rheolaidd. Cafwyd cyfraniad cryf gan wirfoddolwyr o blith myfyrwyr a staff yn ogystal ag aelodau'r gymuned leol

Mae datblygu ail fersiwn y **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth** wedi helpu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i fywyd gwyllt wrth i'r Brifysgol ddatblygu. Mae hyn wedi ein helpu i ennill statws y Faner Werdd ar gyfer y ddau gampws ac i gael ein cydnabod fel y Brifysgol gyntaf yng Nghymru i ennill statws **Caru Gwenyn**

Mae **Flora Industria**, sy'n ardd blodau gwyllt a ariennir gan grant, wedi denu bywyd gwyllt i Gampws y Bae, gan gynnwys gloÿnnod byw bach glas sy'n bridio, gan ddangos bod mannau sy'n ystyriol o fywyd gwyllt yn gallu bod yn ddeniadol i bobl hefyd. Bydd cynorthwyo i'w symud i fan mwy canolog ar y campws yn golygu y bydd hyd yn oed ragor o bobl yn gallu ei mwynhau yn y dyfodol

Cynnwys nifer o **nodweddion sy'n ystyriol o fywyd gwyllt** wrth ddatblygu'r campws, gan gynnwys briciau ar gyfer gwenoliaid duon ac adar y to a waliau byw mewn adeiladau newydd ar Gampws y Bae, gwlyptir a gardd blodau gwyllt yn rhan o'r gwaith ar dirwedd y Ffowndri Gyfrifiadol a chynyddu ardaloedd dolydd blodau gwyllt i gydbwyso'r cynefinoedd a gollwyd wrth adeiladu'r Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM)

Cynyddu gwybodaeth am fywyd gwyllt ar y campws ac yn y SoDdGA, drwy raglen o **deithiau cerdded, sgyrsiau a digwyddiadau eraill**, darparu taflenni gwybodaeth am fywyd gwyllt ar y wefan ac annog myfyrwyr i astudio a diogelu natur ar y campws (e.e. Ymgyrch Ystyriol o Ddraenogiaid y Gymdeithas Gadwraeth, gwirfoddolwyr y SoDdGA, lleoliadau gwaith WoW a SPIN etc)

Fel rhan o brosiect **Coed Derw'r Canmlwyddiant** mae 100 o bobl wedi cymryd rhan mewn gwaith plannu 50 o goed derw Cymreig ar draws y campysau a 50 ychwanegol yng nghymunedau ehangach Abertawe a Chastell-nedd

## EIN HYMRWYMIADAU ALLWEDDOL (2021-2025)

NE 1. Bydd **Tegeirian y Fign a Chwilen y Draethlin** yn cael eu hailgyflwyno ac yn ffynnu yn y SoDdGA (yn amodol ar gymeradwyaeth y rheoleiddiwr)

NE 2. Bydd y **rhywogaethau goresgynnol** allweddol yn y SODdGA (Rosa rugosa, helygen y môr, derwen fythwyrdd, cotoneaster a chlymog Japan) i gyd yn cael eu rheoli'n effeithiol.

NE 3. Dynodir Twyni Crymlyn yn **Warchodfa Natur** sy'n cael ei gwerthfawrogi a'i charu gan y Brifysgol a'r gymuned ehangach â rhwydwaith gweithredol o wirfoddolwyr

NE 4. Bydd rhannau sylweddol ar y ddau gampws yn cael eu rheoli fel **dolydd blodau gwyllt** gan gynnig cynefin i amrywiaeth ffyniannus o fywyd di-asgwrn-cefn ac ased gwerthfawr i'r Brifysgol

NE 5. Bydd pob cynllun datblygu ar y campws yn ystyried **yr effaith ar natur a'r cyfleoedd i natur elwa** o'r cychwyn cyntaf, er mwyn arwain at fudd cyffredinol i fioamrywiaeth, gan gynnwys defnyddio toeau bioamrywiol byw (brown) am y tro cyntaf

## GWEITHGAREDDAU TRAWSBYNCIOL - YMRWYMIADAU

### LLYWODRAETHU, RHEOLI, PENDERFYNU

NE 6. Caiff **Cynlluniau Gweithredu ac Amcanion a Thargedau Bioamrywiaeth** eu cynnwys mewn Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd corfforaethol a lleol (Cyfadran/UGP) fel rhan o'r System Rheoli Amgylcheddol (ISO 14001)

NE 7. Adroddir ar berfformiad ym maes bioamrywiaeth fel rhan o'r **Adolygiad Rheoli** blynyddol yn y Pwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol drwy'r Gweithgor Bioamrywiaeth (anffurfiol) a'r System Rheoli Amgylcheddol (ISO 14001)

NE 8. Bydd **Pwyllgor dynodedig a sefydlwyd i oruchwylio'r SoDdGA** yn parhau i gynnwys aelodau o'r Brifysgol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, St Modwen a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt

## DYSGU, GALLU, SGILIAU

NE 9. Byddwn yn darparu **lleoliadau profiad gwaith** (Go Wales, WoW) ac interniaethau (SPIN, interniaethau ymchwil blwyddyn mewn diwydiant) i alluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau a chyflogadwyedd

NE 10. Bydd **hyfforddiant staff** wedi'i dargedu a hyfforddiant anffurfiol yn cynyddu gwybodaeth a gallu ym meysydd bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

## CYFATHREBU, YMGYSYLLTU, CYNNWYS

NE 11. Bydd Bioamrywiaeth yn parhau i fod yn **thema allweddol yn SWell** ac mewn mentrau, ymgyrchoedd ac apiau ymgysylltu eraill

NE 12. Byddwn yn cynnal **rhaglen o weithgareddau ymgysylltu** ar gyfer staff a myfyrwyr er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am ein bywyd gwyllt, yr hyn rydym yn ei wneud i'w amddiffyn a sut gallant gyfrannu

# EIN CYFRANIAD AT NODAU ERAILL

## YR ARGYFWNG HINSAWDD

### LLINIARU:

NE 13. Caiff **goblygiadau a chyfleoedd storio carbon** eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am ddatblygu a rheoli mannau gwyrdd y Brifysgol a'r SoDdGA

### ADDASU:

NE 14. Byddwn yn creu ecosystemau cynaliadwy a gwydn wrth wraidd y **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Chynllun Rheoli'r SoDdGA**

NE 15. Gan weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allanol, byddwn yn sicrhau bod cadwraeth ystad y Brifysgol yn ategu ac yn gwella **gwytnwch ecosystemau** yn y ddinas, y rhanbarth a'r tu hwnt

NE 16. Bydd **gweithgarwch monitro tymor hir** priodol yn nodi newid amgylcheddol ac yn llywio gweithgarwch rheoli ystad y Brifysgol yn y dyfodol

## LLES AC IECHYD DYNOL

NE 17. Bydd sesiynau glanhau'r traeth, gwirfoddoli staff a gweithgareddau pwrpasol eraill yn rhan o **Strategaeth Lles y Brifysgol**, Diwrnodau Lles ar y ddau gampws a gweithgareddau lles ac iechyd eraill

NE 18. Byddwn yn annog ein cymuned i ddefnyddio'r **mannau gwyrdd ar ein campysau a'r SoDdGA** er lles myfyrwyr a staff

NE 19. Cydweithredu â chydweithwyr yn y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, mewn Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Myfyrwyr i gyflwyno system ffurfiol i gyfeirio staff a myfyrwyr at weithgareddau **ecotherapi a chynaliadwyedd** a rhai cymunedol gan gyfrannu at y **Pum Ffordd at Les**

## LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

NI 3. Canran yr oedolion sy'n ymddangos llai na dau arfer byw'n iach (ddim yn smygu, pwysau iach, bwyta pum darn o ffrwythau neu lysiau'r dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a bodloni'r canllawiau o ran gweithgarwch corfforol)

NI 13. Crynodiad carbon a deunydd organig yn y pridd

NI 14. Ôl Troed Ecolegol Cymru

NI 26. Canran y bobl sy'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw ynddo

NI 28. Canran y bobl sy'n gwirfoddoli

NI 29. Sgôr gymedrig iechyd meddwl pobl

NI 35. Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn

NI 43. Ardaloedd ecosystemau iach yng Nghymru

NI 44. Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru

## NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CENHEDLOEDD UNEDIG




THEMA 2: EIN HAMGYLCHEDD NATURIOL



# THEMA 3:

# EIN HAMGYLCHEDD GWAITH

## EIN LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL (2016-2020)

### CAFFAEL

Y Brifysgol gyntaf yng Nghymru i fod yn aelod o **Electronics Watch** ac un o sefydlwyr y corff sy'n gwarchod moeseg yng nghadwyni cyflenwi'r diwydiant electroneg rhyngwladol

Cynnwys meini prawf cynaliadwyedd ym **mhob tendr uwchlaw £25,000** ar draws y Brifysgol

Cydweithredu â Thîm Caffael y Brifysgol i lunio cynllun gweithredu ar gyfer rhoi **ISO 20400** ar waith, sef y safon ryngwladol mewn caffael cynaliadwy

Gostyngiad o 6843 tunnell fetrig mewn allyriadau carbon $CO_2$e cwmpas 3 ers sefydlu'r gwaelodlin, yn bennaf o ganlyniad i leihau **allyriadau yn y gadwyn gyflenwi**, yng nghyd-destun prifysgol sy'n tyfu (ar sail staff CALl a nifer myfyrwyr a lleoedd addysgu)

Cefnogi gwaith y Gymdeithas Llywodraeth Leol wrth ddatblygu **Offeryn Asesu Risg EQUIANO** ar gyfer troseddau yn erbyn hawliau dynol mewn cadwyni cyflenwi

Cyhoeddi a lledaenu **Canllawiau Craff ar gyfer Caffael Cynaliadwy** ar nifer o themâu, gan gynnwys caffael adnoddau labordai a swyddfeydd

Mae llwyddiannau eraill ym maes caffael yn cynnwys **lleihau ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil,** newid cyflenwad trydan y brifysgol i **dariff 100% o ynni adnewyddadwy** ac ennill achrediad **Cyflogwr Cyflog Byw**

### BWYD AC ARLWYO

Cyflawni achrediad **Bwyd am Oes Cymdeithas y Pridd** ar gyfer tri o'n cyfleusterau arlwyo ac **ardystiad gan y Gymdeithas Bwytai Cynaliadwy**

Llwydom i gyflawni gostyngiad >15% mewn cwpanau tafladwy untro yn y gwasanaeth arlwyo, sy'n gyfwerth â **>140,000 o gwpanau tafladwy** heb eu defnyddio

Ardystiad bod Arlwyo ar y Campws yn bodloni **Safonau Cyngor Stiwardiaeth y Môr**, gan sicrhau bod modd olrhain tarddiad pysgod cynaliadwy a weinir ar y campws

Cyflawni **gwobr arian Safon Iechyd Corfforaethol** Iechyd Cyhoeddus Cymru am **arferion iach mewn arlwyo a gwerthu**

Darparu cymorth allweddol i Undeb y Myfyrwyr wrth sefydlu siop ddi-wastraff ar y campws, "**Root Zero**"

Mae gwastraff o filoedd o eitemau plastig defnydd untro mewn perthynas â bwyd a diod wedi'i osgoi drwy ddarparu dewisiadau amldro neu fwy cynaliadwy ar y campysau a chymhellion i annog cwsmeriaid i'w dewis - gan gynnwys **gwahardd hambyrddau bwffe, gwellt a throyddion diod plastig**

Y brifysgol '**Ail-lenwi**' gyntaf yng Nghymru, gan gydweithredu â myfyrwyr a'r gymuned leol i fapio dros 80 o fannau dŵr yfed am ddim ar ein campysau ac yn y cyffiniau yn Abertawe

### RHEOLI AMGYLCHEDDOL

Un o'r 1**0 sefydliad gorau** (o 154) yn y tri thabl cynghrair diwethaf o brifysgolion gwyrdd, People and Planet ("y Gynghrair Werdd") a gyhoeddir gan The Guardian

Ymuno â **rhaglen Fframwaith Asesu Effeithlonrwydd Labordai Labordai Cynaliadwy (LEAF)** gydag 16 labordy yn cyflawni statws efydd (yn 2020) ac un yn ennill statws arian

Datblygu **Rhwydweithiau Diogelwch a Chynaliadwyedd** ar draws y Colegau a'r Unedau Gwasanaeth Proffesiynol er mwyn lledaenu gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau cynaliadwyedd y Brifysgol a rhannu arfer gorau a gwybodaeth

Rydym wedi gwella ein System Rheoli Amgylcheddol yn sylweddol yn sgil ei hadolygu a sefydlu **set gynhwysfawr o weithdrefnau a chanllawiau corfforaethol** i ddarparu cymorth ymarferol i staff a sefydlu cofrestr deddfwriaeth ar-lein i hwyluso cydymffurfiaeth

Gwnaed gwaith ar y cyd â'r Colegau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol i greu **cofrestri agweddau ac effeithiau amgylcheddol a Chynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd** ar draws y Brifysgol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r rhain

Sefydlu **"tîm gwasanaeth" Iechyd a Diogelwch a Chynaliadwyedd ar y cyd â'r Colegau a'r Unedau Gwasanaeth Proffesiynol** gan ddarparu cymorth o ddydd i ddydd (cyswllt rhwng y tîm canolog a'r Colegau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol, hyfforddiant, arolygiadau ac archwiliadau, camau dilynol yn sgil digwyddiadau niweidiol, etc) er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth a gweithredu'r System Rheoli Amgylcheddol

Cyflawni gostyngiad 35% o ran **defnydd dŵr ar y campysau** (M3/M2)

### GWASTRAFF

**Cynnydd flwyddyn ar flwyddyn yn swm y gwastraff sy'n cael ei droi'n ynni** drwy

ailgylchu o ganlyniad i: gyflwyno rhwydwaith o finiau i bobl wahanu deunyddiau cyn eu taflu; hyfforddiant mewn gwastraff ac ailgylchu; dealltwriaeth o bwysigrwydd defnyddio adnoddau'n effeithlon ac ailgylchu ac ymrwymiad i hyn ymhlith myfyrwyr a staff; a gwelliannau yn nulliau adrodd ar ddata am wastraff

Cyflwyno trefniadau **casglu gwastraff bwyd** ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan

Cyfranogiad mewn rhaglen ailgylchu am ddim ar gyfer deunyddiau gwastraff sy'n **'anodd eu hailgylchu'** gan gynnwys pecynnau byrbrydau, podiau coffi ac offer ysgrifennu a rhoi'r elw i sefydliadau elusennol lleol

Cyfranogiad mewn ymgyrch gwastraff ac ailgylchu ledled y ddinas, **'#intheloop'** yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20 a chyfranogiad yn ymgyrch ailgylchu fwyaf Cymru, **'Bydd Wych, Ailgylcha'** a lansiwyd gan WRAP Cymru yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21

Datblygu a chyflwyno dros **30 o Nodiadau Arweiniad Rheoli Gwastraff** a hyfforddiant arbenigol ar wastraff ac ailgylchu

Cyflawni **Safon Gwastraff yr Ymddiriedolaeth Garbon** ar gyfer lleihau gwastraff flwyddyn ar flwyddyn. Gwelwyd gostyngiad o 15% yng nghyfanswm màs y gwastraff a gynhyrchwyd yn y Brifysgol rhwng 2017 a 2020 a dyfarnodd yr Ymddiriedolaeth Garbon sgôr o 75% i'r Brifysgol am ei harferion rheoli gwastraff

Sefydlwyd yr **UniGreenScheme** i gasglu ac ailwerthu cyfarpar arbenigol diangen gyda'r elw'n mynd yn ôl yn uniongyrchol i'r Colegau

Dyfarnwyd cyllid gan **Gronfa Economi Gylchol** Llywodraeth Cymru i brynu byrnwr polystyren er mwyn cynyddu swm y pecynnu polystyren untro a ddefnyddir yn ein labordai sy'n cael ei ailgylchu

Gostyngiad **40% mewn $CO_2$e** o wastraff ac ailgylchu'r Brifysgol ers 2015/16

## YMGYSYLLTU AM LES A CHYNALIADWYEDD

Cydlynu'r **Safon Iechyd Corfforaethol** sy'n cael ei dyfarnu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru am ddarparu gweithle iach

Mae dros 50% o staff y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi cofrestru a chymryd rhan mewn dros 400,000 (85,000 yn y flwyddyn ddiwethaf) o weithgareddau cynaliadwyedd a lles positif drwy'r ap ymgysylltu, **SWell, a ddaeth yn ail yng Ngwobrau Prifysgolion The Guardian**

Mae dros 50 o **weithgareddau, digwyddiadau a gweithdai lles a chynaliadwyedd** wedi cael eu darparu yn y Brifysgol a'r gymuned bob blwyddyn i staff a myfyrwyr, gan gynnwys clybiau crefft uwchgylchu, tyfu ar y campws, glanhau'r traeth ac archwiliadau ynni a gwastraff

Mae cannoedd o fyfyrwyr bob blwyddyn wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o **weithgareddau allgyrsiol, hyfforddiant a gweithdai cynaliadwyedd** (cofrestrodd 650 yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf) fel rhan o'r Wobr Cynaliadwyedd

Cydweithredu ar y **Strategaeth Lles newydd** gan sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei gydnabod fel galluogwr allweddol

**Llofnodi Cytundeb Nodau Datblygu Cynaliadwy** y Cenhedloedd Unedig gan ein rhwymo i gynnwys aelodau o'n holl grwpiau o randdeiliaid, gan gynnwys "myfyrwyr, academyddion, staff proffesiynol, cymunedau lleol a rhanddeiliaid allanol eraill" wrth sicrhau bod ein gwaith yn gyson â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

## EIN HYMRWYMIADAU ALLWEDDOL (2021-2025)

### CAFFAEL

WE 1. Cyflawni system caffael cynaliadwy sy'n cydymffurfio ag **ISO 20400 ar ôl archwiliad allanol**

WE 2. Caiff **ymrwymiadau i leihau carbon a gwastraff ac adrodd ar hyn** eu cynnwys yn holl dendrau perthnasol y brifysgol sydd dros £25,000. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn cynorthwyo'r Brifysgol i gyflawni ei thargedau cynaliadwyedd (e.e. gostyngiad 50% mewn allyriadau carbon o ffynonellau cwmpas 3 (e.e. caffael, gwastraff, dŵr a theithio) erbyn 2035

WE 3. Caiff proses **ymgysylltu â chadwyni cyflenwi** ei rhoi ar waith er mwyn adolygu cynaliadwyedd a moeseg cyflenwyr a hwyluso gwelliannau (e.e. Netpositive Supplier Engagment tool)

WE 4. Bydd ystyriaethau **Cost Oes Gyfan** yn cael eu cynnwys wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau drwy ddefnyddio asesiadau priodol, sy'n berthnasol i'r categori prynu a'r effeithiau (CIPS - WLC ar gyfer gwybodaeth ategol)

WE 5. Bydd **Arlwyo** yn y Brifysgol yn lleihau effeithiau amgylcheddol a moesegol ac yn uchafu buddion eu cynhyrchion a'u gwasanaethau yn seiliedig ar ddata rheoli, polisïau a gweithdrefnau cynaliadwyedd ac adborth cwsmeriaid a byddant yn cyhoeddi gwybodaeth i gwsmeriaid am effeithiau eu cynhyrchion a'u gwasanaethau

WE 6. Darparu **hyfforddiant mewn caffael cynaliadwy a moesegol** i staff perthnasol drwy ein matrics anghenion hyfforddi

WE 7. **Cynnwys penderfyniadau prynu cynaliadwy** mewn prosesau a systemau caffael, e.e. e-farchnad a datblygu canllawiau mwy pwrpasol ar gynaliadwyedd a moeseg wrth brynu ar gyfer categorïau gwario allweddol

WE 8. **Gwerth Cymdeithasol a Buddion Cymunedol** - ym mhob gweithgarwch caffael perthnasol, waeth beth yw ei werth, dylanwadu ar aseinio buddion cymunedol yn unol â Gweledigaeth Strategol a Phwrpas y Brifysgol ym maes cynaliadwyedd

### CYLLID A CHYFLOGAETH

WE 9. Llunio polisi cadarn sydd ar gael i'r cyhoedd ynghylch **Bancio Moesegol** gan adrodd ar weithgarwch ar lefel uwch. Bydd y polisi hwn yn rhwymo'r Brifysgol i gyfyngu ei busnes (ariannol neu arall) i fanciau sy'n datgan nad ydynt yn darparu cyllid i gwmnïau a phrosiectau tanwydd ffosil

WE 10. Cynnal adolygiad llawn o'n **Polisi Buddsoddi Moesegol** erbyn 2022, ac ystyried estyn y categorïau nad ydym yn buddsoddi ynddynt ymhellach na thybaco a thanwyddau ffosil, gan adolygu gweithgynhyrchu arfau a sectorau eraill

WE 11. Ystyried cynnwys cyfeiriad ym mholisïau neu drefniadau perthnasol y Brifysgol at sicrhau a monitro cydraddoldeb o ran cyflog, amodau a thelerau a phensiynau rhwng **staff ar gontractau mewnol a staff ar gontractau allanol**

### RHEOLI AMGYLCHEDDOL

WE 12. Datblygu **arweiniad a chymorth** i sicrhau bod yr holl weithgarwch addysgu, ymchwil ac allgymorth yn:
- ystyried ei effaith amgylcheddol ac yn cymryd camau i'w lleihau
- cynnwys, lle bynnag y bo modd, elfennau sy'n ymwneud â'r argyfwng hinsawdd a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

WE 13. Diweddaru holl **gydsyniadau'r brifysgol ar y cyd â'r rheoleiddwyr** er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn

WE 14. Parhau i **fapio holl weithgareddau'r Brifysgol i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig** at ddibenion adrodd drwy'r System Rheoli Amgylcheddol, a chaniatáu datblygu a chyflawni camau gweithredu ar draws y brifysgol

WE 15. Gwella dulliau adrodd ar **risgiau a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol y dyfodol** ar gyfer y Brifysgol a chefnogi cyfadrannau ac Unedau Gwasanaeth Proffesiynol i weithredu lle cytunir ar gamau gweithredu

WE 16. Parhau i roi **rhaglen Labordai Cynaliadwy LEAF** ar waith yn nifer cynyddol o labordai'r Brifysgol

WE 17. Cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf yn yr **holl gontractau gwasanaeth newydd** ar lefel Cyfadrannau ac Unedau Gwasanaeth Proffesiynol

### GWASTRAFF

WE 18. Cadw achrediad **Safon Gwastraff yr Ymddiriedaeth Garbon** ar gyfer y Brifysgol drwy gyfnod y Strategaeth

WE 19. Parhau i **leihau swm y gwastraff a gynhyrchir** fesul aelod staff a myfyriwr CALl bob blwyddyn

WE 20. Lle nad oes modd osgoi creu gwastraff, cynyddu cyfraddau **ailddefnyddio ac ailgylchu yn raddol, flwyddyn ar flwyddyn**

WE 21. Cynyddu cyfraddau ailgylchu, yn ogystal â lleihau **defnydd o blastigion untro mewn labordai**

WE 22. Parhau i gynyddu nifer yr eitemau a'r math o eitemau gwastraff **'anodd eu hailgylchu' sy'n cael eu hailgylchu** drwy ehangu rhaglenni presennol a rhai newydd

WE 23. Adnewyddu contractau rheoli gwastraff 2021 - caiff **arferion newydd a nodau newydd** eu cyflwyno ochr yn ochr ag atebion arloesol o ran gwastraff ac ailgylchu

WE 24. Parhau i adeiladu ar yr hyfforddiant gwastraff ac ailgylchu sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn cynnwys **mathau arbenigol o wastraff**

WE 25. Parhau i gyflwyno ceisiadau am **gyllid priodol** i sicrhau bod isadeiledd gwastraff ac ailgylchu'r Brifysgol yn cael ei wella'n barhaus er mwyn cynyddu cyfraddau dargyfeirio ac ailgylchu gwastraff ymhellach

## GWEITHGAREDDAU TRAWSBYNCIOL - YMRWYMIADAU

## LLYWODRAETHU, RHEOLI, PENDERFYNU

THEMA 3: EIN HAMGYLCHEDD GWAITH

WE 26. Sicrhau bod y **Pwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol** yn derbyn adroddiadau i gynnwys yr argyfwng hinsawdd, data am Nodau Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, cysylltiadau â moeseg, gweithwyr a hawliau dynol ac unrhyw risgiau a chyfleoedd eraill sy'n dod i'r amlwg

WE 27. Gweithio gydag uwch-reolwyr cyfadrannau ac unedau gwasanaeth proffesiynol, yn ogystal â chynrychiolwyr meysydd allweddol, i **reoli eu heffeithiau a'u hagweddau amgylcheddol llawn.** Bydd hyn yn golygu ymgorffori'r rhain yn eu trefniadau llywodraethu, eu rolau, eu dogfennaeth, eu systemau monitro ac adrodd, ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau iechyd a diogelwch, parhad busnes a gwytnwch neu eu hintegreiddio â nhw

## DYSGU, GALLU, SGILIAU

WE 28. Bydd hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol i staff fel rhan o'r **System Rheoli Amgylcheddol** yn cynnwys rheoli gwastraff, cydymffurfiaeth gyfreithiol, hyfforddiant archwilydd amgylcheddol a rhannu arfer gorau ac astudiaethau achos

WE 29. Darparu cyfleoedd hyfforddiant i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â lleoliadau gwaith neu waith prosiect fel rhan o **gyrsiau ffurfiol** yn y Brifysgol neu fel **cyfleoedd cyflogaeth dros dro (dros yr haf)**

WE 30. Ailwampio ac ail-lansio ein **Gwobr Cynaliadwyedd** i fyfyrwyr a chynllunio i ehangu'r rhaglen i'r rhai nad ydynt yn fyfyrwyr neu fel DPP

WE 31. Parhau i gynnal **darlithoedd gwadd** ar amrywiaeth o gyrsiau'r brifysgol a gweithio i ddatblygu astudiaethau achos gyda chyfadrannau mewn perthynas â'u haddysg cynaliadwyedd

WE 32. Neilltuo amser ar gyfer yr argyfwng hinsawdd a gweithgareddau cynaliadwyedd mewn llwythi gwaith, gan gynnwys ymysg mesurau eraill, benodi **hyrwyddwyr yr argyfwng hinsawdd**, hwyluso cyfranogiad staff mewn digwyddiadau a gweithdai gwybodaeth yn eu meysydd gwaith a'u colegau ac ymateb i geisiadau am ddata a hunanasesiad

WE 33. Cynnal **digwyddiadau yn debyg i gynulliadau dinasyddion** ar draws y campysau; gwahodd y gymuned ehangach i gyfrannu syniadau newydd, cynllunio atebion ar y cyd ac annog pobl i wneud ymrwymiadau newydd

## CYFATHREBU, YMGYSYLLTU, CYNNWYS

WE 34. Llunio, cyhoeddi a chyflwyno **Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ynghylch Cynaliadwyedd** sy'n cydweddu â'r strategaeth hon

WE 35. Cynnal ymgyrch **amlygrwydd data** sy'n amlygu effaith amgylcheddol y Brifysgol ac unigolion, o fflysio toiledau i ddefnydd papur, o deithio i'r hyn rydym yn ei fwyta ac yn ei yfed ar y campws

WE 36. Sefydlu rhwydwaith o **gyfathrebwyr mewnol ac allanol** sy'n gallu helpu i gynyddu effaith gwaith Prifysgol Abertawe ar yr amgylchedd, cynaliadwyedd, Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'r argyfwng hinsawdd

WE 37. Cyflwyno'r prosiect **Un Deg Saith** mewn ysgolion a cholegau ledled Abertawe er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a rôl y Brifysgol wrth eu cyflawni

WE 38. Cefnogi ein myfyrwyr i fod yn ddinasyddion cyfrifol ac i chwarae rôl weithredol yn ein cymdeithas, yn lleol ac yn fyd-eang, a'u hannog i gymryd rhan mewn prosiectau **gwella'r ardal a'r gymuned leol**

WE 39. Parhau i gyfrannu fel aelod o grŵp gweithredol **Fforwm Amgylcheddol Abertawe**, ar y cyd â'r cyhoeddi a phartneriaid trydydd sector i alluogi ein strategaeth i gyfrannu at ardal Bae Abertawe fwy cynaliadwy

## EIN CYFRANIAD AT NODAU ERAILL

### YR ARGYFWNG HINSAWDD

#### ADDASU:

WE 40. Caiff effeithiau **newid anochel yn yr hinsawdd** a digwyddiadau tywydd cysylltiedig eu cynnwys fel risg allweddol yn y System Rheoli Amgylcheddol ar lefel gorfforaethol a lleol

WE 41. Nodi a chofnodi **digwyddiadau mewn perthynas â'r hinsawdd** ar systemau allweddol y brifysgol, e.e. y gofrestr digwyddiadau niweidiol, desg gymorth Ystadau a Rheoli Cyfleusterau, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a mesur effeithiau ar y Brifysgol

WE 42. Byddwn yn sicrhau bod **lles a gwytnwch** yn rhan o ystad y Brifysgol drwy ein cynllunio addasu i leihau tebygolrwydd ac effeithiau:

- *Llifogydd dŵr arwyneb amlach a mwy difrifol - e.e. llai o arwynebau solet a rhagor o ardaloedd gwyrdd i ddal ac arafu llif y dŵr*
- *Hafau mwy poeth a sych - lle cymunedol ar gyfer hamdden, oeri a gwella lles (e.e. cysgod o goed a mynediad i fannau gwyrdd o safon)*

### LLES AC IECHYD DYNOL

WE 43. Cydlynu camau nesaf **Safon Iechyd Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru** - am ddarparu gweithle iach

WE 44. Bydd ein rhaglen ymgysylltu ynghylch cynaliadwyedd a lles (SWell ar hyn o bryd) yn cyfuno ag amcanion **lles ac iechyd dynol** y Brifysgol o ran ymgysylltu fel rhan o ymagwedd Prifysgol gyfan at les

WE 45. Darparu cymorth ffurfiol ac anffurfiol i **grwpiau, cyfarfodydd a digwyddiadau lles staff a myfyrwyr y Brifysgol** fel rhan o'r ymagwedd 4P at les yn y Brifysgol

WE 46. Cynorthwyo wrth ddatblygu a chynnal calendr blynyddol o **ddigwyddiadau lles ac iechyd yn y brifysgol**

WE 47. Cefnogi parth "Byw" cais y Brifysgol am **Siarter Iechyd Meddwl** fel rhan o Strategaeth Lles y Brifysgol

### LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

NI 3. Canran yr oedolion sy'n ymddangos llai na dau ymddygiad arfer byw'n iach (ddim yn smygu, pwysau iach, bwyta pum darn o ffrwythau neu lysiau'r dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a bodloni'r canllawiau o ran gweithgarwch corfforol)

NI 4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid ($NO_2$) yn yr aer

NI 11. Canran y busnesau sy'n weithredol ym maes arloesi

NI 14. Ôl Troed Ecolegol Cymru

NI 15. Swm gwastraff y pen a gynhyrchir nad yw'n cael ei ailgylchu

NI 28. Canran y bobl sy'n gwirfoddoli

NI 29. Sgôr gymedrig lles meddyliol pobl

NI 32. Nifer yr adeiladau (cartrefi a busnesau) sy'n agored i risg ganolig neu uchel o lifogydd gan afonydd a'r môr

NI 35. Canran y bobl sy'n mynychu gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth, neu'n cymryd rhan ynddynt, o leiaf deirgwaith y flwyddyn

NI 41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru

NI 42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru

NI 45. Canran y cyrff dŵr arwyneb a chyrff dŵr daear sy'n cyflawni statws da neu uchel cyffredinol

### NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CENHEDLOEDD UNEDIG




THEMA 3: EIN HAMGYLCHEDD GWAITH



# THEMA 4:

# EIN TEITHIO

## EIN LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL (2016-2020)

Cynllun Teithio Cynaliadwy sydd wedi ennill nifer o wobrau (y DU a chenedlaethol) a gyflawnwyd drwy weithio mewn partneriaeth, gweithredu a gwaith parhaus **Fforwm Cynllun Teithio Cynaliadwy'r Brifysgol**

**Cyflogwr sy'n Ystyriol o Feicwyr** - Gwobr Aur. Y brifysgol gyntaf yng Nghymru i gael ei hachredu gan y cynllun

Myfyrwyr a staff wedi'u hyfforddi i fod yn **Arweinwyr Teithiau Beicio mewn partneriaeth â Beicio Cymru/British Cycling**. Y brifysgol gyntaf yng Nghymru i gynnig teithiau beicio gydag arweinwyr mewnol ar gyfer myfyrwyr, staff a'r gymuned

Ennill **Cynllun Beiciau Santander/nextbike** ar gyfer y brifysgol a'r gymuned leol drwy gystadleuaeth cyllido torfol. Mae'r cynllun a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2018 wedi mynd o nerth i nerth gyda chweched hyb yn cael ei ychwanegu a thros 34,000 o deithiau wedi eu cwblhau hyd at fis Hydref 2020. Mae'r darparwr gwasanaeth lleol, Bikeability Cymru, yn gweithredu o weithdy ar Gampws Parc Singleton a hwn yw'r unig gynllun nextbike o'i fath lle defnyddir beic a threlar trydan yn hytrach na cherbyd disel i symud beiciau rhwng hybiau

Cynnydd 100% mewn cofrestriadau am y **Cynllun Beicio i'r Gwaith** sydd bellach ar gael drwy'r flwyddyn (ynghyd â'r gweithgareddau hybu beicio eraill)

Cyflwyno'r **rhwydwaith masnachol cyntaf o fysiau prifysgol 24 awr** yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth â First Cymru. Drwy ein Grŵp Defnyddwyr Bysus Staff a Myfyrwyr (a fynychir gan First Cymru, awdurdodau lleol a Traveline Cymru), gall myfyrwyr a staff roi adborth ar wasanaethau a gwneud awgrymiadau

Mae'r gwasanaeth wedi ennill nifer o wobrau yng Nghymru a'r DU, gan weithio mewn partneriaeth ar ddiogelwch (gwasanaeth nos) a defnydd, gan gynnwys budd cymunedol. Mae'r gwasanaeth nos hefyd wedi helpu Dinas Abertawe i gyflawni **Statws Baner Borffor** i'r ddinas a'r economi gyda'r hwyr

**Gostyngiad 80% mewn allyriadau $CO_2$e** gan gerbydlu'r Brifysgol ers 2015/16

## EIN HYMRWYMIADAU ALLWEDDOL (2021-2025)

OT 1. Parhau i gefnogi a chynghori cyflogwyr eraill, yn lleol ac yn genedlaethol, ar y fenter Cyflogwyr sy'n Ystyriol o Feicwyr, drwy **Fforwm Teithio Cynaliadwy Bae Abertawe** a rhannu arfer gorau

OT 2. Cadw **achrediad lefel aur Cyflogwr sy'n Ystyriol o Feicwyr** yn ein harchwiliad nesaf i'w gynnal yn 2022, drwy ymgysylltu a chyfathrebu parhaus a chyflwyno mesurau ychwanegol, gan gynnwys isadeiledd gwell a chynyddu terfyn y Cynllun Beicio i'r Gwaith i alluogi rhagor o staff i brynu beiciau trydan i deithio i'r gwaith

OT 3. Sicrhau bod gennym ddigon o fyfyrwyr a staff sydd wedi'u hyfforddi drwy ein cynllun mewnol Arweinydd Teithiau Beicio a gynhelir mewn partneriaeth â Beicio Cymru/British Cycling, i cynnal rhaglen gynaliadwy a hirdymor o **Deithiau Beicio Tywys** ar gyfer myfyrwyr, staff a'r gymuned. Cynnal teithiau beicio rheolaidd i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol eraill

OT 4. Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu **gwasanaeth bysus 24 awr** llwyddiannus i'n myfyrwyr, ein staff a'r gymuned leol a chyflwyno gwasanaethau gwell pan fydd hi'n ddiogel ac yn gynaliadwy i wneud hynny

OT 5. Sicrhau nad yw'r **strategaeth parcio** yn gwneud gyrru'n unig y dewis mwyaf deniadol a fforddiadwy, a pharhau i gynnwys neges ar ein tudalennau gwe am annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio eraill yn hytrach na gyrru

OT 6. Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i nodi ardaloedd allweddol a darparu rhagor o **hybiau Beiciau Santander/nextbike** er mwyn cynnig dewisiadau teithio mwy llesol. Nodi cyllid lle bynnag y bo modd ond, ar yr un pryd, sicrhau nad yw twf yn y dyfodol yn effeithio ar gynaliadwyedd y cynllun presennol

OT 7. Gweithio gyda phartneriaid mewnol i **gynyddu terfyn y Cynllun Beicio i'r Gwaith** i annog staff i ddewis dulliau teithio llesol, gan gynnig y posibilrwydd o ddarparu beiciau trydan drwy'r cynllun. Bydd angen cefnogaeth uwch-reolwyr ac Adnoddau Dynol i gyflawni hyn

OT 8. Cynyddu nifer y **mannau gwefru cerbydau trydan ar y safle a meddu ar gerbydlu**

**sy'n cynnwys cerbydau allyriadau isel iawn yn unig**

OT 9. Drwy weithio'n agos gyda'r tîm Caffael, defnyddio'r cerbydlu'n fwy effeithiol a hyrwyddo'r gweithdrefnau teithio cynaliadwy i **leihau'r angen am deithio**

OT 10. Hyrwyddo'r **Hierarchaeth Deithio** ac annog staff yn gryf i lynu wrthi, drwy'r gwasanaethau archebu teithio sydd newydd eu caffael

# GWEITHGAREDDAU TRAWSBYNCIOL - YMRWYMIADAU

## LLYWODRAETHU, RHEOLI, PENDERFYNU

OT 11. Caiff **targedau teithio cynaliadwy** (lleol a rhyngwladol) eu cynnwys mewn Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd (rhai'r cyfadrannau a'r unedau gwasanaeth proffesiynol) fel rhan o'r System Rheoli Amgylcheddol (ISO 14001)

OT 12. Mae dulliau teithio cynaliadwy a llesol yn rhan bwysig o'r **Safon Iechyd Corfforaethol**, a chânt eu mesur fel rhan o'r Safon

## DYSGU, GALLU, SGILIAU

OT 13. Darparu cyfleoedd i fyfyrwyr a staff ymgysylltu â gweithredwyr cludiant lleol, yr awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod ganddynt 'lais' yn ogystal â chyfle i fod yn rhan o'r **paneli defnyddwyr bysus sy'n cael eu sefydlu yng Nghymru** gan Traveline Cymru ar ran Llywodraeth Cymru

OT 14. Parhau i weithio gyda **Go Wales** i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr

OT 15. Parhau i weithio gyda myfyrwyr sy'n dewis teithio cynaliadwy a theithio llesol fel themâu **gwaith cwrs a thraethodau estynedig**

OT 16. Parhau i ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr a staff hyfforddi'n **Arweinwyr Teithiau Beicio**

## CYFATHREBU, YMGYSYLLTU, CYNNWYS

OT 17. Bydd teithio'n parhau'n un o themâu allweddol **SWell a'r System Rheoli Amgylcheddol** a defnyddir y ddau gynllun i annog pobl i leihau carbon drwy newid i deithio cynaliadwy

OT 18. Parhau i gynnal gweithgareddau ymgysylltu megis **sioeau teithiol ar gyfer beicwyr**, **defnyddwyr bysus a grwpiau beicwyr**, yn ogystal â chymorthfeydd teithio rheolaidd ar gyfer staff a myfyrwyr

OT 19. Parhau i hyrwyddo teithio cynaliadwy a llesol yn ystod **sesiynau sefydlu a chyrraedd**

OT 20. Parhau i gynnal **arolygon teithio blynyddol** gyda staff a myfyrwyr, a gweithredu mewn ymateb i'w hadborth

OT 21. Parhau i weithio gyda chydweithwyr yn Ystadau a Rheoli Cyfleusterau i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i fesurau teithio cynaliadwy a llesol yn y **strategaeth parcio**

OT 22. Sicrhau bod y **tudalennau gwe teithio cynaliadwy** yn darparu un pwynt gwybodaeth i staff a myfyrwyr am yr holl ddewisiadau teithio cynaliadwy sydd ar gael

OT 23. Hyrwyddo mentrau Cyflogwr sy'n Ystyriol o Feicwyr **yn lleol ac yn genedlaethol** drwy gyflwyniadau, cymorth a hyrwyddo mentrau'r brifysgol

# EIN CYFRANIAD AT NODAU ERAILL

## YR ARGYFWNG HINSAWDD

### LLINIARU:

OT 24. Drwy gyfathrebu, ymgysylltu a hyrwyddo'r weithdrefn teithio busnes newydd, yn ogystal â mesurau cynlluniau teithio, byddwn yn **lleihau nifer y bobl sy'n dychwelyd i yrru ar eu pennau eu hunain** a bydd y ffaith bod Zoom a Teams yn rhan o'n bywydau gweithio'n helpu i gyflawni hyn

OT 25. Cyfathrebu ac ymgysylltu â myfyrwyr a staff i **hyrwyddo cludiant cyhoeddus a rhannu ceir** lle bo hynny'n ddiogel ac yn ymarferol, gan gynnwys cymorthfeydd bysus rheolaidd, negodi'r prisiau gorau am docynnau bws/trên a chynnal arolygon teithio rheolaidd

OT 26. Gweithio gyda chydweithwyr yn y tîm Caffael i sicrhau bod **allyriadau cwmpas 3** o'r 'cerbydlu llwyd' yn cael eu gostwng drwy bolisïau a chynlluniau newydd megis y gweithdrefnau llogi cerbyd newydd a'r Polisi Teithio Busnes newydd

OT 27. Gweithio gydag ymchwilwyr ar fentrau newydd megis **Hybiau Teithio Llesol** a phwyntiau pŵer cynaliadwy i wefru beiciau trydan, goleuadau, etc.

## LLES AC IECHYD DYNOL

OT 28. Hyrwyddo dewisiadau teithio llesol a chynaliadwy yn hytrach na dulliau eraill er mwyn gwella **profiad staff a myfyrwyr** (a llywio dewisiadau teithio yn y dyfodol), cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol gwell, aer glanach, a lleihau salwch staff i ategu Strategaeth Lles y Brifysgol a'r Safon Iechyd Corfforaethol

## LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

NI 3. Canran yr oedolion sy'n ymddangos llai na dau ymddygiad arfer byw'n iach (ddim yn smygu, pwysau iach, bwyta pum darn o ffrwythau neu lysiau'r dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a bodloni'r canllawiau ynghylch gweithgarwch corfforol)

NI 4. lefelau llygredd nitrogen deuocsid ($NO_2$) yn yr aer

NI14. Ôl Troed Ecolegol Cymru

NI 24. Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/fanteisio ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau mae eu hangen arnynt

NI 25. Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn eu hardal leol ac wrth deithio

NI 26. Canran y bobl sy'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw ynddo

NI 29. Sgôr gymedrig iechyd meddwl pobl

NI 41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru

## NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CENHEDLOEDD UNEDIG




THEMA 4: EIN TEITHIO